**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 27/06/2017** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **12/07/2017** |

## PWNC

Eitem 6:DYFODOL DARPARIAETH ADDYSG YN NALGYLCH Y BERWYN

## PENDERFYNIAD

I. Tynnu'r cynnig i sefydlu Campws Dysgu 3-19 Gwirfoddol a Reolir (VC, Eglwys yng Nghymru) yn ei ôl, yn unol ag adran 55 (5) o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.
II. Gofyn am adroddiad pellach argymhelliad ar gyfer Medi 2017 i gyflwyno model amgen ar gyfer ymgynghoriad sy'n cyfarch a chyd-fynd a gofynion yr Achos Busnes sydd wedi ei gymeradwyo gan y Llywodraeth
III. Dirprwyo'r hawl i'r Aelod Cabinet Addysg gynnal rhag-ymgynghoriad gyda'r Eglwys yng Nghymru yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013 ac adrodd ar y canlyniadau i'r Cabinet ym mis Medi 2017.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Yn unol â phenderfyniad y Cabinet ar 14 Chwefror a gofynnion Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013, cynhaliwyd ymgynghoriad gyda chyrff llywodraethol dalgylch y Berwyn ynglyn a bwriad arfaethedig i dynnu'r cynnig i sefydlu Ysgol 3-19 a statws Gwirfoddol a Reolir yn ôl. Derbyniwyd ymateb gan bob un o'r 6 corff a oedd yn gwrthwynebu y cynnig presennol ac yn cefnogi cynnig i dynnu'r bwriad i sefydlu Campws Dysgu 3-19 Gwirfoddol a Reolir yn ei ôl.

Cyflwynwyd llythyr gan yr Esgobaeth yn nodi eu bod yn cytuno a chais y Cyrff Llywodraethol a'r gymuned ehangach ynghylch statws y campws dysgu 3-19 newydd.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Bu i Cyng. Dilwyn Morgan ddatgan buddiant gan fod ŵyr yn mynychu un o'r ysgolion dalgylch y Bala.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd a'r Swyddogion Statudol a chyrff Llywodraethol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 27/06/2017** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **12/07/2017** |

---

## PWNC

Eitem 7 :DARPARIAETH TOILEDAU CYHOEDDUS YNG NGHWYNEDD

---

## PENDERFYNIAD

i. Cyflawni'r toriad o £244,000 yn y gwasanaeth dryw wireddu'r Cynllun Partneriaethau gyda Chynghorau Cymuned a Thref er mwyn cadw'r mwyafrif o doiledau cyhoeddus presennol y Sir yn agored i'r dyfodol
ii. I gau'r toiledau hynny lle nad oes bwriad neu ddiddordeb gan y gymuned i gyfrannu a phartneriaeth erbyn 1 Hydref 2017

---

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Yn dilyn ymarferiad Her Gwynedd, bu i'r Cyngor argymell toriad a oedd yn golygu cau 50 allan o 73 o doiledau cyhoeddus y sir. Bu i'r Cabinet dderbyn argymhelliad y Pwyllgor Craffu Cymunedau i addasu'r penderfyniad drwy yn gyntaf ceisio sefydlu partneriaethau gyda'r Cynghorau Cymuned a Thref i osgoi cau'r cyfleusterau.

Mae gwireddu'r Cynllun Partneriaethau yn rhagweld cadw o leiaf 51 o doiledau yn agored drwy gefnogaeth a chydweithrediad Cynghorau Cymuned a Thref. Mae'r penderfyniad yn symud y cynllun ymlaen i'w weithredu.

---

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd a'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 27/06/2017** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **12/07/2017** |

## PWNC

Eitem 8 :DIOGELU A ROL Y PANEL STRATEGOL DIOGELU

## PENDERFYNIAD

Cymeradwyo ehangu gwaith y Panel Strategol Diogelu i gynnwys gofynion ar yr Awdurdod sydd yn ymwneud a gwrthderfysgaeth, caethwasiaeth fodern, trais yn y cartref a diogelwch cymunedol.

Dirprwyo'r hawl i'r Panel Strategol Diogelu i adolygu a chytuno newidiadau angenrheidiol i'r Polisi Diogelu Corfforaethol yn deillio o fabwysiadu'r newid i'r cylch gorchwyl.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Er mwyn sicrhau bod trefniadau diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion cadarn yn eu lle o fewn y Cyngor a bod cyfundrefn mewn lle i gadw trosolwg o'r maesydd ychwanegol yn y cylch gorchwyl.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd a'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 27/06/2017** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **12/07/2017** |

## PWNC

Eitem 9:ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PANEL STRATEGOL DIOGELU 2016/17

## PENDERFYNIAD

Derbyniwyd yr adroddiad ar waith y Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae yn hanfodol fod Aelodau'r Cabinet yn ymwybodol o waith y Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion ac yn fodlon fod y Panel yn cyflawni eu dyletswyddau yn briodol.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd a'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod.